

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD IAU, 25 TACHWEDD 2021

Yn bresennol:

Cynghorwyr: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gareth T M Jones a Dafydd Owen

Swyddogion: Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu)
a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniadau yn cael ei gwneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol

- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymhell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Mewn ymateb i sylw gan yr ymgeisydd fod y collfarnau wedi mynd tu hwnt i'r cyfnod a nodir yn y polisi, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod hawl gan yr Is-bwyllgor ystyried pob collfarn sy'n ymddangos ar y cofnod DBS. Er derbyn rhwystredigaeth yr ymgeisydd ategwyd mai Polisi'r Cyngor yw ystyried yr holl gollfarnau fel bod modd cael darlun clir a llawn o'r cefndir. Blaenoriaeth yr Is-bwyllgor yw diogelwch y cyhoedd ac wrth bwysu a mesur yr holl dystiolaeth bydd modd penderfynu os yw ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer y swydd.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Nododd ei fod yn edifarhau, ei fod wedi gwella ei ymddygiad, ac yn dilyn digwyddiad 2018 ei fod wedi dysgu gwersi gan alw ar yr Heddlu a chadw cofnod o bob digwyddiad mewn dyddiadur. Nododd ei fod yn gyrru bysiau ers 27 o fynyddoedd ac nad oedd cwyn wedi ei gyflwyno am ei agwedd na'i yrru.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Hydref 2010 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd o ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol neu sarhaus, gyda'r bwriad i godi ofn neu bryfocio trais yn groes i Ddeddf Trefn Cyhoeddus 1986. Derbyniodd yr ymgeisydd ddirwy o £200, costau o £85 a chostau ychwanegol o £15.

Yn Nhachwedd 2018 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Gogledd Orllewin Cymru o ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol neu sarhaus, sy'n debygol o godi ofn, dychryn neu drallod, yn groes i Ddeddf Trefn Cyhoeddus 1986. Derbyniodd yr ymgeisydd ddirwy o £100, costau o £85 a chostau ychwanegol o £30

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal

trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae paragraff 16.1 o'r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarnau 2010 a 2018 yn ymwneud â throseddau o drais. Roeddynt yn fodlon bod cyfnod yr amser a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath wedi mynd heibio yn achos y ddau fater. Serch hynny, gan fod 'patrwm' o aildroseddu ystyriwyd y mater o dan paragraff 16.1. O dan y paragraff hwnnw nodi'r dylid gwrthod cais os nad oes cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn olaf. Gan nad oedd cyfnod o'r fath wedi mynd heibio, ystyriodd yr Is-bwyllgor os oedd unrhyw resymau a thystiolaeth wedi eu cyflwyno i'w perswadio yn wahanol.

Ystyriwyd natur y patrwm o ail-droseddu drwy ystyried eglurhad a thystiolaeth yr ymgeisydd am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Roedd trosedd 2010 wedi digwydd 11 mlynedd yn ôl ac yn ymwneud a sefyllfa deuluol benodol. Roedd trosedd 2018 serch hynny yn peri pryder i'r Is-bwyllgor oherwydd sefyllfa a godwyd tra roedd yr ymgeisydd yn gyrru bws cyhoeddus ac felly'n berthnasol iawn yng nghyd-destun cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hur preifat. Amlygodd yr Is-bwyllgor y byddai sefyllfaoedd anodd iawn yn codi o bryd i'w gilydd ble byddai'n rhaid cadw rhag colli tymer a pheidio ymateb os cythruddid. Ystyriodd yr Is-bwyllgor amgylchiadau'r digwyddiad a arweiniodd at y gollfarn a daethpwyd i farn fod yr ymddygiad yn un annerbyniol. Er hynny, cymharol oedd difrifoldeb yr ymddygiad ac nid oedd unrhyw drais corfforol wedi digwydd.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor ddatganiad yr ymgeisydd o fod wedi dysgu gwersi yn dilyn y digwyddiad drwy alw'r Heddlu pan fydd sefyllfa debyg yn codi a chofnodi pob digwyddiad mewn dyddiadur. Ystyriwyd hefyd bod yr ymgeisydd yn gyrru bws ers blyneddau ac nad oedd unrhyw gwynion wedi eu cyflwyno i'w gyflogwyr o ran ei yrru na'i ymddygiad.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, penderfynodd yr Is-bwyllgor fod natur y patrwm o ail-droseddu a'r dystiolaeth o'r hyn oedd wedi digwydd ers y gollfarn olaf yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth y Polisi. O ganlyniad roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Atgoffwyd yr ymgeisydd petai ddigwyddiad tebyg yn codi byddai'r awdurdod trwyddedu yn gorfod ystyried camau priodol i'w cymryd yn yr amgylchiadau

penodol hynny, ac y gallai'r camau gynnwys diddymu'r drwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 y.h. a daeth i ben am 3.30 y.h.

CADEIRYDD